OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 583 (Cy.55)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	- -	*27 Chwefror 2007*
Yn dod i rym	- -	*1 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(2) a (7), 59(1) a 61(1)(**1**) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 a pharagraff 2(1)(a) o Atodlen 1 iddi(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2007, ond mae'n effeithiol o 28 Mehefin 2005 ymlaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Hollti dros dro hawl comin

2.—(1) Caniateir i hawl comin i bori anifeiliaid y mae adran 9(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn gymwys iddi gael ei hollti dros dro oddi wrth y tir y mae'r hawl honno'n gysylltiedig ag ef drwy brydlesu neu drwyddedu—

(a) yr hawl comin ar ei phen ei hun, ar yr amod na fydd cyfnod y brydles neu'r drwydded yn hwy na thair blynedd; neu

(b) y tir, neu ran o'r tir, y mae'r hawl comin yn gysylltiedig ag ef, heb yr hawl comin.

(2) Pan fo hawl comin wedi'i hollti dros dro oddi wrth unrhyw dir yn unol â pharagraff (1)(b), ni fydd unrhyw effaith i unrhyw warediad o'r hawl comin a gedwir lle bo'r gwarediad yn cymryd lle adeg rhoi neu ar ôl rhoi'r brydles neu'r drwydded ar y tir, a chyn i'r brydles neu'r drwydded gael ei therfynu oni fydd yn cael ei gwaredu—

(a) i grantî'r brydles neu'r drwydded ar y tir; ac

(b) am gyfnod sy'n dod i ben ddim mwy na thair blynedd ar ôl i'r brydles neu'r drwydded honno ddod i ben.

(**1**) Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol priodol ("*appropriate national authority*") o ran Cymru.
(**2**) 2006 p.26.